Un Llais Cymru

One Voice Wales

Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

The Voice of Community and Town Councils in Wales

| | |
|---|---|
| Nodyn Datblygu Ymarfer 4 | Practice Development Note 4 |
| Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau | Annual Report: Timetable of Actions |
| Dyddiad Cyhoeddi Ebrill 2024 | Date Issued April 2024 |
| Dyddiad Adolygu Hydref 2024 | Review Date October 2024 |
| Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor. | This information is owned by One Voice Wales under copyright. It is intended for members of One Voice Wales only. Please contact One Voice Wales if you propose circulating this information outside of your Council. |

Lyn Cadwallader BA(Hons),PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.unllaiscymru.org.uk

**Nodyn Datblygu Ymarfer 4 Un Llais Cymru**

**Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau**

**Canllaw syml i Gynghorau Cymuned a Thref**

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **1. Rhagarweiniad** | | | |
| 1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno pecyn o ddiwygiadau i gryfhau ac ehangu'r grymoedd sydd ar gael i lywodraeth leol. Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch y trefniadau hyn. Mae Pennod Pedwar yn cyfeirio at Adroddiadau Blynyddol. | Bydd Adroddiad Blynyddol da yn helpu codi ymwybyddiaeth o fodolaeth Cynghorau Cymuned a Thref a'u gwaith yn eu cymunedau ac ymgysylltu â chymunedau. | Mae Adran 52 Deddf 2021 yn mynnu fod Cynghorau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol, yn paratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau, a chyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn flaenorol. Dylid cyhoeddi Adroddiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi diwedd pob blwyddyn ariannol. Efallai y gellid ei | Mai? |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| | | gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor?<br><br>Dylech gofio ei drafod gyda'r Aelodau yn y lle cyntaf, trwy ei gyflwyno i bwyllgor neu drefnu gweithgor anffurfiol i ystyried yr Adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. | |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **2. Cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol** | | | |
| 2.1 Peidiwch aros tan 31 Mawrth cyn meddwl am yr Adroddiad Blynyddol. Meddyliwch amdano yn ystod y flwyddyn. Beth mae'r Cyngor wedi'i gyflawni? Beth yw'r meysydd lle y bu | Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gyfle i arddangos gwaith y Cyngor, gan fyfyrio dros weithgarwch y flwyddyn flaenorol ac edrych ymlaen at y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. | Dylech feddwl am y cynnwys trwy gydol y flwyddyn. Beth am adroddiad chwarterol i Aelodau i adolygu cynnydd? | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cynnydd yn arafach nac yr oeddech wedi gobeithio? Allwch chi ddangos cynnydd ar eich prif amcanion? | | | |
| 2.2 Meddyliwch am yr Adroddiad Blynyddol fel paentio Pont Afon Forth. Dylech adolygu cynnydd trwy gymharu ag adroddiadau blaenorol o flwyddyn i flwyddyn. | | Cadwch olwg ar eich cynnydd. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn fwy nac ymarferiad ticio blychau. | Beth am ddechrau meddwl am adroddiad y flwyddyn nesaf wrth lunio'r gyllideb? Efallai yr hoffech wneud darpariaeth ariannol er mwyn cyflawni rhai amcanion y flwyddyn nesaf. |
| 2.3 Mae'r cynnwys yn allweddol. Nid oes templed ar gyfer Adroddiad Blynyddol gan y bydd y fformat yn adlewyrchu beth mae eich Cyngor yn ei wneud. Mae'r canllawiau statudol yn cynnig cyngor da ar | Nid yw'r adroddiad ond yn gallu adlewyrchu sut mae'r Cyngor yn gweithio a beth mae'n gyflawni. Adlewyrchir hynny yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Os oes gan y Cyngor strategaeth a chynllun, ac os yw'n dilyn y bum ffordd o weithio ac ati, mae hyn yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynnwys. Meddyliwch am bennu amcanion, a'u cysylltu efallai gyda'r saith nod Llesiant, cyfeirio at y bum ffordd o weithio'n gynaliadwy. Meddyliwch am ddefnyddio mesuriadau perfformiad; ydych chi'n defnyddio dangosyddion SMART – mesuriadau sy'n Benodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol ac o Fewn Cyfyngiadau Amser? Bydd diffinio'r paramedrau hyn a'u cysylltiad â'ch nod yn helpu sicrhau bod eich amcanion yn gyraeddadwy o fewn cyfnod penodol o amser. Bydd y pecyn Cyllid & Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref yn eich helpu i weithio mewn ffordd strategol. | llifo'n naturiol i mewn i'r Adroddiad Blynyddol. Os nad yw'r Cyngor yn gweithio yn ôl unrhyw gynllun strategol, gallai hynny adlewyrchu ei hun yn yr Adroddiad Blynyddol. | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.4 Mae adroddiadau'n amrywio yn eu hyd, cynnwys, ac arddull gyflwyno, ond yn gyffredinol maent yn cynnwys y rhan fwyaf o faterion a amlinellir ym mharagraff 4.10 y canllawiau. | | | |
| 2.5 Mae disgwyl hefyd i Gynghorau Cymuned a Thref baratoi a chyhoeddi adroddiadau eraill, yn ymwneud â meysydd megis bioamrywiaeth (Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) ac, i rai Cynghorau, Llesiant (Adran 40 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).<br><br>Gall Cynghorau ddewis llunio adroddiadau ar wahân neu eu cyfuno mewn un adroddiad. | Cydymffurfio â gofynion statudol a chynnig cyflwyniad cydlynol ar weithgarwch strategol a gweithredol. | Rhaid i Gynghorau Cymuned a Thref baratoi a chyhoeddi cynllun bob tair blynedd yn amlinellu sut maen nhw'n bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth. Roedd disgwyl iddynt gyhoeddi'r adroddiad cyntaf cyn diwedd 2019, ac roedd disgwyl iddynt gyhoeddi adroddiadau dilynol cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod rhai Cynghorau yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaethant yn cyflawni amcanion llesiant lleol yn eu hardaloedd. Y cynghorau perthnasol yw'r rhai a chanddynt drosiant | Bob trydedd flwyddyn o 2019.<br><br>Yn flynyddol i rai Cynghorau. Beth am gyfuno hyn gyda'ch Adroddiad Blynyddol? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | blynyddol o £200,000 neu ragor yn y tair blwyddyn ariannol cyn cyhoeddi’r cynllun llesiant lleol. | |

| **3. Cyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Amserlen yn gryno** |
| 3.1 Dylai cyhoeddi eich Adroddiad Blynyddol fod yn gydnaws â’r drefn gyffredinol ar gyfer cyhoeddi papurau’r Cyngor yn Atodlen 4 Deddf 2021, h.y. fod yr adroddiad yn | Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol. | Nid oes unrhyw amserlen benodol ar gyfer cyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol. Awgrymir y dylid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl ei gymeradwyo. | Cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cael ei gyhoeddi'n electronaidd ar eich gwefan.<br><br>3.2 Os yw eich Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, efallai y gwnaethoch ymrwymiad drwy'r Cynllun i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn ddwyieithog. Os nad ydych wedi mabwysiadu cynllun o'r fath, gall Cynghorau benderfynu ei gyhoeddi'n ddwyieithog os dymunant. | | | |

**Rhai awgrymiadau allweddol:**

- Mae'r canllawiau statudol yn gynhwysfawr. Nid yw Un Llais Cymru wedi ceisio dyblygu'r canllawiau hyn. Mae'r nodyn yn ganllaw cyflym ar arfer da, gan gynnwys awgrymiadau defnyddiol i ychwanegu at y canllawiau statudol.

- Mae enghreifftiau o Arfer Da ledled Cymru. Derbyniodd Cyngor Cymuned Pontypŵl y wobr am yr Adroddiad Blynyddol Gorau yng Ngwobrau Un Llais Cymru 2024. Cafodd Cyngor Tref Cricieth, Cyngor bach yn y Gogledd, Gymeradwyaeth Arbennig am eu gwaith yn yr un categori. Cafodd Cyngor Cymuned Maesyfed, Cyngor bach ym Mhowys, gydnabyddiaeth am ei waith hefyd.

- Mae rhai Cynghorau'n defnyddio'r Adroddiad Blynyddol i ddisgrifio eu trefniadau llywodraethu (sy'n cael ei annog yn y canllawiau) a holi barn y cyhoedd ar wariant a blaenoriaethau. Gwnaeth Cyngor Cymuned Radur a Threforgan yng Nghaerdydd hynny. A yw'r dudalen gynnwys syml yn eich helpu i feddwl am dempled ar gyfer eich adroddiad?

- Meddyliwch am sut orau i roi cyhoeddusrwydd i'ch Adroddiad Blynyddol. Yng Nghyngor Tref Llanandras a Norton, ym Mhowys, penderfynodd yr Aelodau beidio argraffu copïau o'r adroddiad ar gyfer pob cartref, gan nad oeddent yn credu fod honno'n ffordd werdd, gynaliadwy o weithio. Yn hytrach, mae copïau wedi'u hargraffu mewn tair llyfrgell leol ac yn y siop leol. Mae copi ar y wefan i'w lawr lwytho ac mae copi wedi'i argraffu ar gael trwy ofyn am un. Mae hysbysiad am y cyhoeddiad ar hysbysfyrddau'r pentrefi ac mae'r cyhoedd yn cael gwybod y gallant ofyn am gopi wedi'i argraffu.

- Os yw eich Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol, defnyddiwch eich tudalennau i godi ymwybyddiaeth o'r Adroddiad Blynyddol. Ceisiwch greu deialog gyda'r cyhoedd. "Tagiwch" fudiadau allweddol sy'n weithgar yn eich ardal.

- Yn olaf, peidiwch anghofio ystyried cyflwyno eich Adroddiad Blynyddol ar gyfer Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2025!